

## An introduction to Odonata Larvae - Sunday 26 June 2011

A glorious day was enjoyed by 19 participants (a fantastic attendance) studying odonata larvae at Alyn Waters Country Park, Wrexham. The temperature soared to 26°C and the study pond was teaming with life! The Cofnod course was led by Andy Harmer, an ecological consultant with expertise in freshwater ecology. The course covered: odonata anatomy, importance of larval and exuvial identification, a field session at the study pond to collect specimens and identification using a dichotomous key and dissection microscopes in the classroom.

To open the course Andy provided an overview of Odonata which emphasised the importance of recording the larvae as well as adults in flight. Andy explained that adult dragonfly records do not provide enough information about the life cycle or species distribution and that lavae can help with all year round sampling for odonata species.

Laden with nets, trays and sample pots we headed out to the main pond, where we observed adults and were thrilled to find 10 exuviate specimens (moulted exoskeletons), providing good practical experience in locating specimens as well as photographic and identification opportunities. Species found included; Emperor Dragonfly (*Anax imperator*), Azure Damselfly (*Coenagrion puella*) and Broad-bodied Chaser (*Libellula depressa*). We hoped to visit more ponds, but due to the lack of rain in recent months all other scrapes were dry.

After lunch we went back into the classroom where Andy provided a thorough overview on the anatomy of odonata larvae and the indicative features for identification purposes. The afternoon was whiled away examining exuviae specimens. By the 3rd or 4th specimen participants seemed to have gained in confidence and were soon whistling through the specimens with a great sense of achievement once Andy had verified their identifications.

We'd like to thank Andy for making it such an interesting and rewarding day. We hope it will stimulate people to start looking out for Odonata and particularly the larvae. If you find any species you can pass the records and relevant specimens on to Allan Brandon (allan@rowenconwy.wanadoo.co.uk) or enter the records through Cofnod's Online Recording System.

Cofnod will be holding its final summer course of 2011; 'Bumble Bee Identification', at Treborth Botanic Gardens on 23rd July. The demand for this course has been overwhelming. It's anticipated that we will run various courses next year, so please keep an eye on upcoming e-newsletters or the Cofnod website.





## Cyflwyniad i Larfa Gweision y Neidr a Mursennod - Sul 26 Mehefin 2011

**Cafodd 19 o gyfranogwyr (nifer rhagorol) ddiwrnod bendigedig yn astudio larfa gweision y neidr a mursennod ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alyn, Wrecsam. Roedd y tymheredd yn 26°C ac roedd y pwll i'w astudio'n llawn bywyd! Arweiniwyd y cwrs ar ran Cofnod gan Andy Harmer, ymgynghorydd ecolegol gydag arbenigedd mewn ecoleg dŵr croyw. Rhoddodd y cwrs sylw i: anatomeg gweision y neidr a mursennod, pwysigrwydd adnabod y larfa a'r hengroen, sesiwn maes yn y pwll astudio i gasglu samplau a'u hadnabod gan ddefnyddio allwedd deubarthol a microsgopau dadelfennu yn yr ystafell ddosbarth.**

**I agor y cwrs, cyflwynodd Andy grynodeb am Weision y Neidr a Mursennod gan bwysleisio pwysigrwydd cofnodi'r larfa yn ogystal â'r creaduriaid yn hedfan yn eu llawn dwf. Eglurodd Andy nad yw'r cofnodion am weision y neidr yn eu llawn dwf yn darparu digon o wybodaeth am gylch bywyd neu ddosbarthiad y rhywogaethau a bod larfa'n gallu helpu gyda samplu drwy gydol y flwyddyn ar gyfer rhywogaethau o weision y neidr a mursennod.**

**Yn cludo rhwydi, hambyrddau a photiau samplau, aethom allan at y prif bwll, lle gwelwyd oedolion ac roeddem wrth ein bodd wedi dod o hyd i 10 sampl o hengroen (sgerbwd allanol wedi'i fwrw), gan ddarparu profiad ymarferol da o ran lleoli samplau a hefyd cyfleoedd i dynnu lluniau ac adnabod y rhywogaethau. Ymhlith y rhywogaethau y daethpwyd o hyd iddynt roedd; Gwas y Neidr yr Ymerawdwr (*Anax imperator*), y Fursen Asur (*Coenagrion puella*) a'r Heliwr Llydangorff (*Libellula depressa*). Roeddem wedi gobeithio ymweld â rhagor o byllau ond oherwydd y diffyg glaw yn ystod y misoedd diwethaf, roedd y lleill i gyd yn sych.**

**Ar ôl cinio, aethom yn ôl i'r ystafell ddosbarth lle cafwyd crynodeb o anatomeg larfa gweision y neidr a mursennod gan Andy, a soniodd am y nodweddion arbennig at ddiben adnabod y rhywogaethau. Treuliwyd y prynhawn yn archwilio'r samplau o hengroen. Erbyn y 3ydd neu'r 4ydd sampl, roedd y cyfranogwyr wedi magu hyder ac yn fuan iawn roeddent yn gwibio drwy'r samplau gyda rhyw ymdeimlad mawr o gyflawni unwaith roedd Andy wedi cadarnhau eu bod wedi adnabod y rhywogaethau'n gywir.**

**Hoffem ddiolch yn fawr i Andy am wneud y diwrnod yn un mor ddiddorol a llawn boddhad. Rydym yn gobeithio y bydd yn ysgogi pobl i ddechrau cadw llygad am weision y neidr a mursennod, ac yn arbennig eu larfa. Os dowch chi o hyd i unrhyw rywogaethau, gallwch anfon y cofnodion a'r samplau perthnasol at Allan Brandon (allan@rowenconwy.wanadoo.co.uk) neu nodi'r cofnodion gan ddefnyddio System Gofnodi Ar-Lein Cofnod.**

**Bydd Cofnod yn cynnal ei gwrs olaf yn ystod haf 2011, 'Adnabod Cacwn', yng Ngerddi Botaneg Treborth ar 23ain Gorffennaf. Mae'r galw am y cwrs hwn wedi bod yn anhygoel a chredir y byddwn yn cynnal cyrsiau amrywiol yn ystod y flwyddyn nesaf, felly cofiwch gadw llygad am y manylion yn yr e-gylchlythyrau yn y dyfodol neu yng ngwefan Cofnod.**

